Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Canllaw Meini Prawf Preswylio a Gofynion Tystiolaeth

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut y dylai darparwyr (sy'n golygu'r rhai sy'n cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth drwy ddefnyddio cyllid a ddarperir gan Medr) asesu a yw person (a elwir hefyd yn "ddysgwr") yn bodloni'r gofynion cymhwystra sy'n gysylltiedig â phreswylio i dderbyn prentisiaeth a gyllidir gan Medr yng Nghymru.

I fod yn gymwys ar gyfer rhaglen brentisiaeth a gyllidir gan Medr, rhaid i'r person (a elwir yn gyfranogwr neu'n ddysgwr drwy'r holl gyfres o ddogfennau grant) fodloni'r meini prawf cymhwystra preswylio ar gyfer cyllid o dan Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 (“**Rheoliadau 2007**”), bod yn breswylydd yn y DU ac yn gymwys i weithio yno, a lle bo'n berthnasol, rhaid i'r person ddal y fisâu gofynnol.

Mae Rheoliad 8 o Reoliadau 2007 yn nodi ei bod yn gyfreithlon i Medr fabwysiadu rheolau cymhwystra ar gyfer dyfarniadau **sy'n cyfyngu ar gymhwystra ar gyfer cyllid Prentisiaeth, i'r rhai a grybwyllir yn yr Atodlen i Reoliadau 2007**.

## Canllaw ar gyfer asesu cymhwystra

### Gofynion ar gyfer gwahanol gategorïau preswylio fel y'u rhestrir yn Rheoliadau 2007

Bwriedir i'r canllaw hwn roi enghreifftiau o'r sefyllfaoedd lle gallai cyfranogwyr fodloni'r gwahanol gategorïau preswylio, fel y'u nodir yn Rheoliadau 2007. Nid rhestr gynhwysfawr mohoni.

Os ydych chi'n ansicr a yw rhywun yn perthyn i gategori penodol neu os na allwch chi weld categori sy'n addas i berson penodol, fe'ch anogir i geisio eich cyngor annibynnol eich hun.

Nid cyngor cyfreithiol yw'r canllaw hwn ac ni ddylid dibynnu arno felly. Gallai hefyd newid yn unol â'r newidiadau a wneir i Reoliadau 2007 o bryd i'w gilydd.

Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i sicrhau bod y canllaw hwn yn gywir ac yn gyfredol, nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am ei gynnwys a dylai darparwyr eu bodloni eu hunain bob tro fod cyfranogwyr yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Rheoliadau 2007.

Os oes unrhyw wahaniaethau rhwng y canllaw hwn a Rheoliadau 2007, rhaid cymhwyso Rheoliadau 2007.

Os yw categori yn dweud 'ydy', mae'n golygu bod y categori dysgwr yn gymwys ar gyfer y Rhaglen Brentisiaeth yn yr amgylchiadau penodol hynny (h.y. personau sy'n breswylwyr sefydlog yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, (Colofn A o'r tabl) yn gymwys ar gyfer y Rhaglen, ond ni fyddant yn gymwys os ydynt wedi bod yn preswylio'n sefydlog yn yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny (colofn C o'r tabl).

| Paragraff yr Atodlen | Categorïau Preswylio Cymwys | Aelodau cymwys o'r teulu | Rhaid i gyfranogwyr fod yn *breswylydd arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs AC/NEU am y 3 blynedd cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs. | | | | Nid yw'r weithred o breswylio yn y DU, yr AEE, y Swistir, y tiriogaethau tramor a'r Ynysoedd wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Colofn A** yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs | **Colofn B** yn y DU a'r Ynysoedd am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn C** yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn D** yn y DU, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am y 3 blynedd cyn hynny | | |
| **2,2A,3** | Personau sy'n breswylwyr sefydlog** yn y DU | | ydy (gweler y nodyn) | ydy (gweler y nodyn) | | | Ydy (gweler y nodiadau) | Ar gyfer paragraffau 2 a 2A rhaid i'r cyfranogwr fod yn preswylio'n arferol ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd, a gall y 3 blynedd o breswylio'n arferol gynnwys Gweriniaeth Iwerddon.<br><br>Ar gyfer paragraff 3, rhaid i'r cyfranogwr fod yn preswylio'n arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs. Os gwnaed hyn er mwyn derbyn addysg amser llawn, rhaid iddynt fod wedi bod yn preswylio'n arferol yn y DU/AEE, y Swistir a thiriogaethau tramor yn syth cyn hynny. |

| Paragraff yr Atodlen | Categorïau Preswylio Cymwys | Aelodau cymwys o'r teulu | Rhaid i gyfranogwyr fod yn *breswylydd arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs AC/NEU am y 3 blynedd cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs. | | | | Nid yw'r weithred o breswylio yn y DU, yr AEE, y Swistir, y tiriogaethau tramor a'r Ynysoedd wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Colofn A** yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs | **Colofn B** yn y DU a'r Ynysoedd am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn C** yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn D** yn y DU, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am y 3 blynedd cyn hynny | | |
| **9D** | Aelodau teulu person sy'n breswylydd sefydlog** yn y DU | Fel arfer, mae aelod o'r teulu yn cynnwys priod neu bartner sifil a disgynyddion uniongyrchol sydd naill ai o dan 21 oed neu'n ddibynyddion. | | ydy | | | ydy | |
| **4** | Ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd | Mae aelod o'r teulu wedi'i gyfyngu i briod neu bartner sifil a'u plant oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais am ganiatâd i aros. | ydy | | | | | Ffoadur yw rhywun sydd wedi cael caniatâd i aros yn y DU ar sail ddyngarol ar ôl ceisio lloches i ddechrau am eu bod yn ofni erledigaeth yn eu gwlad gartref. ac sydd wedi parhau i breswylio yma ers cael eu cydnabod fel ffoadur. Mae ffoadur yn wahanol i geisiwr lloches. |
| **4A** | Personau gwarchodedig ac aelodau o'u teulu | Priod Gwarchodedig / Partner Sifil Gwarchodedig / Plant gwarchodedig dan 18 oed (ar ddyddiad y cais am ganiatâd i aros) | ydy | | | | | Mae personau gwarchodedig yn cynnwys pobl sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi naill ai oherwydd eu bod yn gymwys i gael diogelwch dyngarol, am eu bod yn "berson heb wladwriaeth" |

| Paragraff yr Atodlen | Categorïau Preswylio Cymwys | Aelodau cymwys o'r teulu | Rhaid i gyfranogwyr fod yn *breswylydd arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs AC/NEU am y 3 blynedd cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs. | | | | Nid yw'r weithred o breswylio yn y DU, yr AEE, y Swistir, y tiriogaethau tramor a'r Ynysoedd wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Colofn A** yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs | **Colofn B** yn y DU a'r Ynysoedd am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn C** yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn D** yn y DU, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am y 3 blynedd cyn hynny | | |
| | | | | | | | | (h.y. nid ydynt wedi'u cydnabod fel gwladolyn unrhyw wlad) neu am eu bod yn blentyn digwmni sy'n ffoi, neu'n blentyn 'Calais'. |
| **4B** | Personau y rhoddir caniatâd iddynt aros fel partner gwarchodedig a'u plant | Mae hefyd yn berthnasol i'w plant o sydd dan 18 oed (ar y dyddiad gwneud cais am ganiatâd i aros). | ydy | | | | | Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi cael caniatâd i aros yn y DU naill ai fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig neu fel partneriaid mewn profedigaeth. |
| **4C** | Gwladolion gwarchoedig o Wcráin, sydd wedi bod yn preswylio'n arferol yn y DU, a heb roi'r gorau i breswylio yno, ac aelodau o'u teulu | Mae aelod o'r teulu wedi'i gyfyngu i briod neu bartner sifil a'u plant sydd o dan 18 oed (ar ddyddiad y cais am ganiatâd i aros). | ydy | | | | | Mae dinesydd gwarchodedig o Wcráin yn cynnwys person sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin, y Cynllun Noddi Lleol ar gyfer Wcráin, y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin, neu'r Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin. |
| **4D** | Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros fel | Mae aelod o'r teulu wedi'i gyfyngu i briod neu bartner sifil | ydy | | | | | Mae dinesydd perthnasol o Affganistan yn cynnwys person sydd wedi cael caniatâd i ddod i |

| Paragraff yr Atodlen | Categorïau Preswylio Cymwys | Aelodau cymwys o'r teulu | Rhaid i gyfranogwyr fod yn *breswylydd arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs AC/NEU am y 3 blynedd cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs. | | | | Nid yw'r weithred o breswylio yn y DU, yr AEE, y Swistir, y tiriogaethau tramor a'r Ynysoedd wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Colofn A** yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs | **Colofn B** yn y DU a'r Ynysoedd am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn C** yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn D** yn y DU, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am y 3 blynedd cyn hynny | | |
| | dinesydd perthnasol o Affganistan | a'uplant dan 18 oed (ar y dyddiad gwneud cais am ganiatâd i aros). | | | | | | mewn i'r DU neu aros ynddi o dan Bolisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan, neu berson â chanddo hawl amhenodol i ddod i mewn i'r DU drwy'r Llwybr Ymateb Affganistan. |
| **5** | Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros ac aelodau o'u teulu. | Mae aelod o'r teulu wedi'i gyfyngu i briod neu bartner sifil a'u plant o dan 18 oed (ar y dyddiad gwneud cais am ganiatâd i aros). | ydy | | | | | Mae person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros yn cynnwys pobl sydd wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd teuluol neu breifat (gan gynnwys achosion dewisol na fyddent fel arfer yn gymwys), y rhai nad oeddent yn gymwys i gael statws ffoadur ond sy'n cael caniatâd i ddod i mewn neu aros ar sail ddewisol neu ar sail diogelwch dyngarol. |
| **6A** | Pobl â hawliau gwarchodedig sydd yn weithwyr mudol, yn | Fel arfer, mae aelod o'r teulu yn cynnwys priod neu bartner sifil | ydy | | ydy | | | Gweithiwr mudol o'r AEE yw gwladolyn o'r AEE sy'n weithiwr yn y DU. |

| Paragraff yr Atodlen | Categorïau Preswylio Cymwys | Aelodau cymwys o'r teulu | Rhaid i gyfranogwyr fod yn *breswylydd arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs AC/NEU am y 3 blynedd cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs. | | | | Nid yw'r weithred o breswylio yn y DU, yr AEE, y Swistir, y tiriogaethau tramor a'r Ynysoedd wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Colofn A** yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs | **Colofn B** yn y DU a'r Ynysoedd am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn C** yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn D** yn y DU, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am y 3 blynedd cyn hynny | | |
| | weithwyr trawsffiniol, yn bersonau hunangyflogedig, yn bersonau hunangyflogedig trawsffiniol o'r AEE ac aelodau o'u teulu NEU'N bersonau cyflogedig, personau hunangyflogedig, personau cyflogedig trawsffiniol, personau hunangyflogedig trawsffiniol o'r Swistir ac aelodau o'u teulu. | a disgynyddion uniongyrchol sydd naill ai o dan 21 oed neu'n ddibynyddion.<br><br>Bydd y mathau o aelodau o'r teulu sy'n gymwys yn amrywio yn dibynnu ar genedligrwydd y person perthnasol. | | | | | | Gweithiwr trawsffiniol yw rhywun sy'n gweithio yn y DU ond sy'n byw yn yr AEE neu'r Swistir ac yn dychwelyd adref bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos.<br>Mae person hunangyflogedig trawsffiniol yn hunangyflogedig yn y DU ond yn byw yn yr AEE neu'r Swistir ac yn dychwelyd adref bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos.<br>Person cyflogedig o'r Swistir yw gwladolyn o'r Swistir sy'n gyflogedig.<br>Defnyddir yr ystyr arferol ar gyfer personau hunangyflogedig.<br>Mae'r AEE yn golygu gwledydd yr UE ynghyd â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy. |
| **7A** | Person â hawliau gwarchodedig(yn gysylltiedig â'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i | | ydy | | ydy | | | Mae hyn yn golygu rhywun sydd â statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i |

| Paragraff yr Atodlen | Categorïau Preswylio Cymwys | Aelodau cymwys o'r teulu | Rhaid i gyfranogwyr fod yn *breswylydd arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs AC/NEU am y 3 blynedd cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs. | | | | Nid yw'r weithred o breswylio yn y DU, yr AEE, y Swistir, y tiriogaethau tramor a'r Ynysoedd wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Colofn A** yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs | **Colofn B** yn y DU a'r Ynysoedd am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn C** yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn D** yn y DU, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am y 3 blynedd cyn hynny | | |
| | Ddinasyddion yr UE) | | | | | | | Ddinasyddion yr UE, rhai sydd wedi gwneud cais o dan y Cynllun ac sy'n disgwyl am benderfyniad (gan gynnwys apeliadau a cheisiadau am adolygiad gweinyddol) a gwladolion Iwerddon. |
| **8A** | Personau sy'n breswylwyr sefydlog** yn y DU ac sydd wedi arfer hawl i breswylio yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor | | ydy | | ydy | | | Er enghraifft, gallai hyn gynnwys rhywun a adawodd y DU i fyw (a bod yn breswylydd arferol) mewn gwlad yn yr UE cyn Brexit ond sydd wedi dychwelyd i'r DU ers hynny |
| **9A** (a 10A – gweler y nodiadau) | Gwladolion yr UE sydd â hawliau gwarchodedig ac aelodau o'u teuluoedd | Priod / Partner Sifil / Disgynyddion Uniongyrchol o dan 21 oed / Dibynyddion sy'n ddisgynyddion uniongyrchol neu mewn achosion cyfyngedig, perthnasau | | | Ydy (ond nid yw'n berthnasol i aelodau'r teulu ar yr amod bod gwladolyn yr UE â hawliau gwarchodedig wedi bodloni'r gofyniad | | Nid yw'r categori hwn yn cynnwys preswylio'n arferol yn gyfan gwbl neu'n bennaf er | Bydd gan wladolion yr UE hawliau gwarchodedig os oes ganddynt statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog o dan Gynllun , os ydynt wedi gwneud cais o dan y Cynllun ac yn aros am benderfyniad (gan gynnwys apeliadau a cheisiadau am |

| Paragraff yr Atodlen | Categorïau Preswylio Cymwys | Aelodau cymwys o'r teulu | Rhaid i gyfranogwyr fod yn *breswylydd arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs AC/NEU am y 3 blynedd cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs. | | | | Nid yw'r weithred o breswylio yn y DU, yr AEE, y Swistir, y tiriogaethau tramor a'r Ynysoedd wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Colofn A** yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs | **Colofn B** yn y DU a'r Ynysoedd am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn C** yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn D** yn y DU, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am y 3 blynedd cyn hynny | | |
| | | uniongyrchol yn y llinach esgynnol | | | preswylio ei hun) | | mwyn derbyn addysg amser llawn. | adolygiad gweinyddol) ac os ydynt yn ddinesydd Gwyddelig.<br><br>Gall cyfranogwyr hefyd fodloni rhai/yr holl feini prawf ym mharagraff 10A. Fodd bynnag, i ddibenion y tabl hwn, ychydig iawn o wahaniaeth a geir rhwng paragraff 9A a pharagraff 10A, felly nid yw'r gwahaniaethau hynny wedi'u nodi'n fanwl yn y tabl hwn. |
| **9A** | Aelodau o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon | Priod / Partner Sifil / Plant / Disgynyddion uniongyrchol o dan 21 oed neu ddibynyddion | | | | | Nid yw'r categori hwn yn cynnwys preswylio'n arferol yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg | Mae hyn yn golygu aelodau teulu pobl sydd:<br>• yn ddinasyddion Prydeinig, Gwyddelig neu ddeuol Prydeinig ac Gwyddelig, AC<br>wedi'u geni yng Ngogledd Iwerddon, ac ar adeg eu geni bod ganddynt o leiaf un rhiant a oedd yn Brydeinig, yn Wyddelig, yn ddeuol Brydeinig a Gwyddelig neu â hawl i fyw yng |

| Paragraff yr Atodlen | Categorïau Preswylio Cymwys | Aelodau cymwys o'r teulu | Rhaid i gyfranogwyr fod yn *breswylydd arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs AC/NEU am y 3 blynedd cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs. | | | | Nid yw'r weithred o breswylio yn y DU, yr AEE, y Swistir, y tiriogaethau tramor a'r Ynysoedd wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Colofn A** yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs | **Colofn B** yn y DU a'r Ynysoedd am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn C** yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn D** yn y DU, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am y 3 blynedd cyn hynny | | |
| | | | | | | | amser llawn. | Ngogledd Iwerddon heb gyfyngiad. |
| **9B** | Gwladolion y DU a'u teulu a oedd fel arfer yn preswylio yn y DU neu'r AEE/y Swistir, a thiriogaethau tramor yr UE cyn 11pm ar 31/12/2020 | Mae aelod o'r teulu wedi'i gyfyngu i briod neu bartner sifil neu ddisgynnydd uniongyrchol sydd o dan 21 oed neu'n ddibynnydd. | Ydy | | Ydy (nid yw'n berthnasol i aelodau'r teulu) ar yr amod bod y gwladolyn o'r DU wedi bodloni'r gofyniad preswylio'n arferol) | | Nid yw'r categori hwn yn cynnwys preswylio arferol yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn. | Mae tiriogaethau tramor yr UE yn golygu. Ynysoedd Ffaro; Polynesia Ffrengig; Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc Mayotte; Yr Ynys Las; rhan y Caribî o Deyrnas yr Iseldiroedd (Aruba, Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius a Sint Maarten); St Barthélemy; St Pierre a Miquelon; Tiriogaeth Caledonia Newydd a'r Tiriogaethau Dibynnol; a Wallis a Futuna. |
| **9BA** | Dinasyddion Gwyddelig a oedd fel arfer yn byw yn y DU neu'r AEE/y Swistir, a thiriogaethau tramor yr UE cyn 11pm ar 31/12/2020 | Priod / Partner Sifil / Plant / Disgynyddion uniongyrchol o dan 21 oed neu ddibynyddion | Ydy | | Ydy (ond nid yw'n berthnasol i aelodau'r teulu ar yr amod bod y gwladolyn o'r DU wedi bodloni'r gofyniad | | Nid yw'r categori hwn yn cynnwys preswylio arferol yn gyfan gwbl neu'n | |

| Paragraff yr Atodlen | Categorïau Preswylio Cymwys | Aelodau cymwys o'r teulu | Rhaid i gyfranogwyr fod yn *breswylydd arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs AC/NEU am y 3 blynedd cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs. | | | | Nid yw'r weithred o breswylio yn y DU, yr AEE, y Swistir, y tiriogaethau tramor a'r Ynysoedd wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Colofn A** yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs | **Colofn B** yn y DU a'r Ynysoedd am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn C** yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn D** yn y DU, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am y 3 blynedd cyn hynny | | |
| | | | | | preswylio'n arferol) | | bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn. | |
| **9C** | Gwladolion y DU | Priod / Partner Sifil / Plant / Disgynyddion uniongyrchol o dan 21 oed neu ddibynyddion | ydy (gweler y nodyn) | | | ydy | Nid yw'r categori hwn yn cynnwys preswylio arferol yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn. | Y gofyniad yw iddynt fod yn berson sydd yn breswylydd sefydlog yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.<br><br>Mae hyn yn cynnwys lle buont yn preswylio'n arferol ar diriogaethau Tramor Prydeinig penodedig am ran o'r 3 blynedd diwethaf o leiaf. Tiriogaethau Tramor Prydain yw Anguilla, Bermuda, Tiriogaeth Antarctig Prydain, Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India, Ynysoedd Cayman, Ynysoedd Falkland, Gibraltar, Montserrat, Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac |

| Paragraff yr Atodlen | Categorïau Preswylio Cymwys | Aelodau cymwys o'r teulu | Rhaid i gyfranogwyr fod yn *breswylydd arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs AC/NEU am y 3 blynedd cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs. | | | | Nid yw'r weithred o breswylio yn y DU, yr AEE, y Swistir, y tiriogaethau tramor a'r Ynysoedd wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Colofn A** yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs | **Colofn B** yn y DU a'r Ynysoedd am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn C** yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn D** yn y DU, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am y 3 blynedd cyn hynny | | |
| | | | | | | | | Oeno, De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De, St Helena, Ascension a Tristan da Cunha, Ynysoedd Turks a Caicos ac Ynysoedd y Wyryf.<br><br>Mae'r gofyniad hwn hefyd yn cynnwys Dinasyddion Prydeinig a aned yn Nhiriogaethau Tramor Prydeinig India cyn 8 Tachwedd 1965, neu ddisgynyddion uniongyrchol y bobl hynny. Caiff y bobl hyn eu trin fel pe baent yn preswylio'n arferol yn y tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig mewn unrhyw gyfnod cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf y cwrs lle nad ydynt yn preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig neu'r Ynysoedd. |
| **9E** | Gwladolion y DU/yr UE ac aelodau o'u teulu â statws | Mae aelod o'r teulu wedi'i gyfyngu i briod neu bartner sifil neu | | | Ydy (nid yw'n berthnasol i aelodau'r teulu) | | Nid yw'r categori hwn yn | |

| Paragraff yr Atodlen | Categorïau Preswylio Cymwys | Aelodau cymwys o'r teulu | Rhaid i gyfranogwyr fod yn *breswylydd arferol ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs AC/NEU am y 3 blynedd cyn y diwrnod cyntaf ym mlwyddyn academaidd gyntaf eu cwrs. | | | | Nid yw'r weithred o breswylio yn y DU, yr AEE, y Swistir, y tiriogaethau tramor a'r Ynysoedd wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn | Nodyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Colofn A** yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs | **Colofn B** yn y DU a'r Ynysoedd am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn C** yn y DU, yr AEE, y Swistir neu'r tiriogaethau tramor am y 3 blynedd cyn hynny | **Colofn D** yn y DU, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am y 3 blynedd cyn hynny | | |
| | preswylio/hawl i breswylio yn Gibraltar. | ddisgynnydd uniongyrchol sydd o dan 21 oed neu'n ddibynnydd. | | | ar yr amod bod y prif ymgeisydd wedi bodloni'r gofyniad preswylio) | | cynnwys preswylio'n arferol yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn. | |
| **11A** | Personau sydd â hawliau gwarchodedig sy'n blant i Wladolion y Swistir | | ydy | | ydy | | | Mae hyn yn golygu plant gwladolion y Swistir (lle mae gan y dinesydd o'r Swistir hawl i gael cymorth o dan Gytundeb y Swistir i ddod i'r DU ar gyfer addysg, prentisiaethau a chyrsiau hyfforddiant galwedigaethol). |
| **12A** | Plant gweithwyr Twrcaidd lle'r oedd y plentyn yn preswylio'n arferol yn y DU cyn 11pm ar 31/12/2020 | | ydy | | ydy | | | Gweithwyr Twrcaidd yw gwladolion Twrcaidd sydd yn preswylio'n arferol ac wedi'u cyflogi'n gyfreithlon yn y DU. |

## Canllawiau pellach ar statws mewnfudo

- Gall caniatâd mewnfudo'r unigolyn yn y DU olygu bod ganddo amod **'dim hawl i gyllid cyhoeddus'** Nid yw hyn yn cynnwys addysg na chyllid addysg, felly nid yw hyn yn effeithio ar gymhwystra unigolyn, y mae'n rhaid penderfynu arno o dan yr amodau cymhwystra arferol.
- Bydd unrhyw unigolyn, neu aelod perthnasol o'r teulu, **sydd wedi gwneud cais am estyniad neu amrywiad i'w caniatâd mewnfudo presennol** yn y DU yn dal i gael eu trin fel pe bai ganddynt y caniatâd hwnnw. Cedwir y caniatâd hwn os gwnaed y cais cyn i'w caniatâd cyfredol ddod i ben. Mae eu caniatâd i aros yn parhau hyd nes bo'r Swyddfa Gartref yn penderfynu ynghylch eu cais mewnfudo, ond gellid bod angen cynnal gwiriadau ychwanegol ar eu hawl i weithio.
- Ystyrir bod unigolyn, neu aelod perthnasol o'r teulu, **yn dal i fod â'r caniatâd mewnfudo a oedd ganddynt wrth wneud cais am estyniad,** a byddai eu cymhwystra wedi'i seilio ar y statws hwn.

## Gofynion tystiolaeth

Gellir gwirio statws mewnfudo o dan y categorïau uchod yn yr un modd ag ar gyfer gwiriadau hawl i weithio a thrwy ddilyn canllaw'r Swyddfa Gartref ar wiriadau hawl i weithio - Gwiriadau hawl i weithio: canllaw i gyflogwyr.

Bydd angen i ddarparwyr gadarnhau bod y dystiolaeth wedi'i gwirio drwy lofnodi'r Cytundeb Dysgu Prentisiaeth, ond ni fydd angen iddynt gadw copi o'r dystiolaeth.

## Rhestr Termau

***Yn preswylio'n arferol** – yn golygu'r lle y mae rhywun yn byw ynddo fel arfer yn ystod eu bywyd o ddydd i ddydd, p'un a ydynt yn preswylio yno am y tymor byr neu'r tymor hir. Gellir dangos tystiolaeth o hyn drwy hunanddatganiad dilys a dyddiedig gan y cyfranogwr yn nodi ei gyfeiriad presennol (a lle bo gofyniad tair blynedd) ei gyfeiriadau dros y tair blynedd diwethaf. Rhaid i'r preswylio fod yn gyfreithlon, ac mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r person gael caniatâd mewnfudo i fod yn y wlad honno a rhaid iddo beidio â bod yn y carchar. Gellir anwybyddu absenoldebau dros dro (fel blynyddoedd i ffwrdd), a gall rhywun fod yn preswylio'n arferol mewn mwy nag un wlad ar yr un pryd.

** **Yn breswylydd sefydlog yn y DU** – i ddibenion Rheoliadau 2007 mae hyn yn golygu rhywun sy'n preswylio'n arferol yn y DU a heb fod yn ddarostyngedig i unrhyw gyfreithiau mewnfudo nac i unrhyw gyfyngiadau ar y cyfnod y cânt aros yn y wlad. Yn ymarferol mae hyn yn cynnwys Dinasyddion Prydeinig neu Wyddelig, y rhai sydd â hawl i breswylio yn y DU a'r rhai sydd wedi cael "caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu aros", statws preswylydd sefydlog neu'n mynd drwy'r broses honno, neu sydd o fewn cwmpas personol y ddarpariaeth hawliau i ddinasyddion.

**“Dyddiad Gwneud Cais am Ganiatâd i Aros"** - yn golygu'r dyddiad pan gyflwynwyd cais gan y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros a arweiniodd at roi caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig.

Mae **“Statws Preswylydd Sefydlog"** yn golygu caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu aros o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Fel arfer, bydd y person wedi byw yn y DU am gyfnod parhaus o bum mlynedd a heb adael y DU am fwy na phum mlynedd yn olynol ers hynny. Gall person sydd â statws preswylydd sefydlog aros yn y DU am gyfnod amhenodol.

Mae **“Statws Cyn-sefydlog"** yn golygu caniatâd cyfyngedig i ddod i mewn neu aros o dan y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Rhoddir statws cyn-sefydlog am bum mlynedd i ddechrau ond caiff ei ymestyn onid yw'r person yn bodloni'r gofynion ar ei gyfer mwyach.

Mae y **“DU**” yn golygu Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

Mae'r “**UE**” yn golygu’r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r “**AEE**” yn golygu’r ardal sy’n cynnwys yr UE, Gweriniaeth Gwlad yr Iâ, Teyrnas Norwy a Thywysogaeth Liechtenstein. Dylid ystyried, i ddibenion cymhwystra, fod ardal nad oedd yn rhan o'r UE na'r AEE gynt ond a ddaeth, ar unrhyw adeg cyn y dyddiad perthnasol, yn rhan o'r naill ardal neu'r llall neu'r ddwy ardal hyn, fel ardal sydd wedi bod yn rhan o'r AEE erioed.

Mae **“dyddiad perthnasol”** yn golygu diwrnod cyntaf rhaglen ddysgu Prentisiaeth i bob oed.

**“Gwladolion yr UE”** yw gwladolion o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae **“Ynysoedd”**yn golygu Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw